Cofnodion o'r cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mercher Hydref 1af 2003 am 8.10 pm

Presennol: Cynghorwyr:Cyng D. A. Jones (Maer) (Cadeirydd), Cyng G. Vaughan Jones (Dirprwy Faer), Cyng S. Burge, Cyng K. Day, Cyng G. Price, Cyng C. Jenkins, Cyng R. Bellamy, Cyng I. Gwyn.

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref). R. Huw Griffith (Swyddog Technegol)

Prif bwrpas y cyfarfod hwn oedd i drafod a derbyn Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Gan mai newydd dderbyn hwn y mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, torrodd y Maer y cyfarfod am ddeng munud er mwyn gadael i'r Cyngor gael amser i ddarllen yr adroddiad.

5866: Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Anerchodd yr Archwilydd Mewnol Mr H. Towns y cyfarfod. Nododd y Cyngor bod yr adroddiad yn welliant ar un y flwyddyn flaenorol. Dywedodd Mr Towns nad oedd hi'n bosib mynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad Archwilio blaenorol achos nad oedd Clerc gan y Cyngor, ni chwblhawyd Archwiliad 2002-2003 tan 30ain Mawrth 2003, diwrnod olaf y 'Flwyddyn Ariannol', felly nid oedd yn bosib gwneud penderfyniad ar lawer o'r materion. Sylwodd ar y gwelliant presennol a dywedodd bod llawer o'r beirniadaethau wedi eu trosglwyddo o'r flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn bwysig i nodi bod y Cyngor nid yn unig wedi cael tri Chlerc gwahanol yn ystod y flwyddyn, ond hefyd cafodd gyfnod o dua chwe mis heb Glerc o gwbl. Roedd angen i'r Cyngor glirio Statws y Rheoliadau Cyllidol a fabwysiadwyd mewn Egwyddor yn unig.

Clerc y Dref a'r Cyng Bellamy i drefnu cyfarfod i groesgyfeirio'r Rheoliadau Cyllidol a'r Rheolau Sefydlog, ac i edrych ar y Rheolau Cyllidol yn fanwl. Y Rheoliadau Cyllidol i fod yn Eitem ar Agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

5867: TAW- cyfeiriwyd rhai o'r anfonebau o'r Flwyddyn Ariannol ddiwethaf at gynghorydd. Nid yw'n bosib adennill y TAW pan mae hyn yn digwydd. Rhaid cymryd gofal nad yw hyn yn digwydd yn y dyfodol. Dylid cyfeirio anfonebau sydd yn ymwneud a gweithgareddau'r Cyngor at y Cyngor a'u gweinyddu drwy'r Clerc.

5868: Sicrwydd Ffyddlondeb; Gan fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi codi eto roedd rhaid codi lefel Sicrwydd Ffyddlondeb i £55000.

Clerc i gysylltu â Zurich Municipal i gynyddu lefel yr yswiriant i £55000.00 cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Vaughan Jones.

5869: Y Gyllideb: Nid oedd cyfiawnhad am bob un ffigwr, dim ond set o ffigyrau. Mae angen i'r Pwyllgor Cyllid gofnodi dyraniad arian i fewn i'r Gyllideb yn fwy manwl. Roedd gormod o arian hefyd yn cael ei gadw yn y cyfrif Busnes llog isel. Roedd yn angenrheidiol i gadw'r swm hwn yn isel gan drosglwyddo unrhyw arian i mewn i'r cyfrif Di-rybudd ym mhob Cyfarfod Cyllid er mwyn gwneud y gorau o'r llog a enillir.

Eitem Agenda i gyfarfod nesaf y Pwyllgor fydd Dyraniad Cyllid. Y Clerc i ddod a chysoniad manylach i bob Cyfarfod Cyllid fel y gellir trosglwyddo'r arian.

5870: Diolchwyd Mr H. Towns am ei waith ac am ddarparu adroddiad teg.

Derbynnir adroddiad yr Archwilydd Mewnol gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr. Cynigiwyd gan y Cyng. Day, eiliwyd gan y Cyng Vaughan Jones.

5871: Y Drafft Terfynol o'r Cyfrifion i'w Harchwilio. Gan dderbyn cofnod rhif 5829, cyflwynodd Clerc Y Dref y newidiadau canlynol i'r cyfrifon. Taenlen yr Incwm, symudwyd y ffigyrau o wariant Swyddfa i Gyffredinol – y rhai hynny sydd yn ymwneud a'r hysbyseb am y swyddd fel Clerc y Dref. Yr anfonebau wedi eu gwneud allan i'r cynghorwyr, TAW ddim yn ad-daliadwy, felly wedi ei symud o golofn TAW i'r golofn dreuliau. Arian wrth gefn wedi ei glustnodi a'i newid fel a ganlyn ar sail Datganiad flaenorol y Cyllideb:

Adran 137	£3480.00
Eglwys	£385.00
Digwyddiadau	£3350.00
Ffordd Osgoi	£6041.00
Goleuadau Stryd	£4263.00
Goleuadau Nadolig	£1313.00
Llandeilo mewn Blodau	£1000.00
Tywyslyfr y Dref	£1827.00
Arian Cyfatebol	£3241.00
Cyfanswm	**£24900.00**

Symudwyd bathodynnau'r Cynfaer ac ati o Gofrestr Ased i Gofrestr Stoc newydd fer fel a ganlyn:

EITEM	PRYNWYD GAN	LLLEOLI	GWERTH	SEILIEDIG
Medaly Cyn Faer (6)	Thomas Fattorini	Crescent House	Yr Un £72.00	Cost
Broetsh y Cyn Faeres (6)	Thomas Fattorini	Crescent House	Yr Un £69.00	Cost
Platiau Arflun y Dref (8)		Crescent House	Yr Un £10.00	Cost

Mygiau Arflun y Dref		Neuadd y Sir	Yr Un £8.00	Cost

Eitemau a gyflwynwyd yn ystod 2002-2003

Bathodyn gwasanaeth y Maer Blynyddol a roddir i'r Maer sy'n ymadael £72.00
Broetsh gwasanaeth y Faeres Flynyddol a roddwyd i'r Faeres sy'n ymadael £69.00
Plat Tref Llandeilo a roddwyd i dîm Rygbi ysgol oedd ar daith.

5872: Gwnaed y newidiadau hyn yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Archwilydd Mewnol,

Mae Cyngor Tref Llandeilo Fawr yn derbyn Cyfrifon Incwm a Gwariant fel a gyflwynwyd i'w harchwilio. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Jenkins, wedi ei basio gyda phawb o blaid.

5873: Datganiad Sicrwydd :Mae'r Cyngor yn ymateb fel a ganlyn:
'Ie' i gwestiynau 1,3,4,6,7,8 a :
'Na' i gwestiynau 2 a 5.

Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yn mynd i'r afael â'r materion sydd yn weddill yn y Flwyddyn Ariannol nesaf.

Mae Cyngor Tref Llandeilo Fawr yn cymeradwyo Datganiad Sicrwydd yr Archwiliad Allanol fel a ddisgrifir uchod. Cynigiwyd gan y Cyng. Gwyn, eiliwyd gan y Cyng. Vaughan Jones, wedi ei basio gyda phawb o blaid.

5874: Taliaadau Maes Parcio a'r Diweddaraf ar y Ffordd Osgoi : Mae bellach yn anochel y codir tâl yn y Maes Parcio yn y dref. Dywedodd y Cyng. Vaughan Jones os yw hyn yn digwydd bod angen ystyried cyflwr y Maes Parcio.

Clerc i ysgrifennu at Gadeirydd C. S. C. i ofyn am welliannau i'r maes parcio.

Yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd rhwng Network Rail a'r Maer a'r Cynghorydd Sir I. Jones i ystyried prosiect Ffordd yr Orsaf a mater y Ffordd Osgoi. O wybod y rheoliadau Ewropeaidd presennol o ran Llifogydd, fe ymddangosir nad yw'r ffordd bresennol a gynygir ar gyfer ffordd osgoi yn ymarferol. Roedd y Maer a'r Cynghorydd Sir I. Jones hwy ill dau wedi ysgrifennu llythyrau unigol at Andrew Davies yn y Cynulliad Cenedlaethol gan gynnig ffordd arall ymlaen drwy ailgyfeirio'r ffordd osgoi. Gyda ffordd Rhydaman yn troi yn ffordd gefn a ffordd Gorslas yn troi yn briffordd, yr A476 o Crosshands i Ffairfach, awgrymwyd mai'r ffordd

liniaru rhataf a'r lleiaf trafferthus byddai ar draws y cwm gan ymuno â'r ffordd osgoi ogleddol sydd yn bodoli'n barod.

Cefnogwyd llythyr y Maer gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr. Cynigiwyd gan y Cyng. Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Bellamy. Y Ffordd Osgoi i'w hychwanegu fel eitem agenda ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Diolchodd y Gadair i bawb am fynychu'r cyfarfod ychwanegol a daeth y cyfarfod i ben am 9.10 pm.